Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Data ac Ystadegau ar Ysmygu



Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Yn y casgliad o sleidiau hwn, byddwn yn archwilio:

- **Cyfraddau ysmygu ymhlith oedolion yng Nghymru**

Tueddiadau dros amser

- **Cyfraddau ysmygu ymhlith plant a phobl ifanc**

Tueddiadau dros amser

- **Yr Effeithiau a’r baich ar iechyd ar Gymru**
- **Anghydraddoldebau a phatrymau economaidd-gymdeithasol**
- **Beth mae'r data'n ei awgrymu ar gyfer y dyfodol**

# Ysmygu Tybaco ymhlith Oedolion yng Nghymru

Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddaraf (2024-25), dywedodd 10.4% o oedolion (18 oed a hŷn) yng Nghymru eu bod yn ysmygu sigaréts ar hyn o bryd. Mae hwn yn llai nag yn 2022-23 (13%).

Dyma'r gyfradd ysmygu isaf ymhlith oedolion a gofnodwyd yng Nghymru ers dechrau cofnodi.

- Mae cyffredinrwydd ysmygu ar ei uchaf ymhlith oedolion 25–34 oed.
- O'i gymharu â 2011, mae ysmygu ymhlith oedolion yng Nghymru wedi gostwng mwy na 50%.
- Fodd bynnag, er bod y duedd ar i lawr yn parhau, **mae 1 o bob 10 oedolyn yng Nghymru yn dal i ysmygu.**




*[Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU]*

# Ysmygu Tybaco ymhlith Pobl Ifanc yng Nghymru

Mae cyfraddau ysmygu ymhlith plant oedran ysgol yn isel iawn.

- Ym mlynyddoedd 7–11 (11–16 oed): mae ~3% yn ysmygu sigaréts ar hyn o bryd.
- Ymhlith disgyblion hŷn (blynyddoedd 12–13): mae ~7% yn nodi eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd.

Mae cyfraddau "Wedi rhoi cynnig ar ysmygu" ychydig yn uwch, ond yn dal i fod o dan 10% ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol uwchradd.

Mae cyfraddau ysmygu rheolaidd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn gyson.




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

*Defnyddiwch eich data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion er mwyn pennu pa mor gyffredin yw ysmygu ymhlith eich dysgwyr a nodi unrhyw batrymau y gallai fod angen sylw arnynt.*

# Deall Tueddiadau Ysmygu Cyfredol







Mae data SHRN yn dangos bod ysmygu rheolaidd ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghymru wedi parhau i ostwng rhwng 2017 a 2023.

# Yr Effaith a’r Baich ar Iechyd yng Nghymru

Amcangyfrifir bod **3,845 o farwolaethau’r flwyddyn** yng Nghymru (ymysg pobl 35 oed a hŷn) o ganlyniad i ysmygu - dros **10% o’r holl farwolaethau** yn y grŵp oedran hwnnw. (Wedi'i gyfrifo rhwng 2020 a 2022)

Mae ysmygu hefyd yn cyfrannu at bwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd: mae tua **17,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn** yng Nghymru o ganlyniad i ysmygu.

Nid yw baich marwolaeth a salwch wedi'i ddosbarthu'n gyfartal: mae pobl yn y **cymunedau mwyaf difreintiedig** yn dioddef llawer mwy - mae cyfraddau marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag ysmygu tua **thair gwaith yn uwch** yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

# Anghydraddoldebau a Phatrymau Economaidd-gymdeithasol

Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd ar lefel ardal a chyffredinrwydd ysmygu. Yng Nghymru, mae tua 22.4% o oedolion sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn ysmygu, o'i gymharu â dim ond 6.6% o'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023).

Yng Nghymru mae statws economaidd-gymdeithasol - gan gynnwys cyflogaeth a dosbarth galwedigaethol - hefyd yn bwysig. Mae cyfraddau ysmygu yn uwch ymhlith pobl mewn swyddi “gwaith ailadroddus â llaw” neu’r rhai sy’n ddi-waith, o’u cymharu â’r rhai mewn rolau rheoli neu broffesiynol.

**Dosbarthiad ysmygwyr yng Nghymru 18 oed a hŷn yn ôl cymdogaeth**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Amddifadedd a'r effaith ar gyffredinrwydd ysmygu, Cymru a Lloegr: (2017 i 2021)

# Crynodeb

Mae cyfraddau ysmygu yng Nghymru yn is nag erioed, gyda chyffredinrwydd isel ymhlith pobl ifanc, er bod ychydig dros 1 o bob 10 oedolyn yn dal i ysmygu.

Mae tueddiadau hirdymor yn dangos gostyngiad sylweddol a pharhaus mewn ysmygu ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae ysmygu yn parhau i fod yn brif achos salwch a marwolaethau y gellir eu hatal, gan gyfrannu at dros 10% o farwolaethau a phwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd bob blwyddyn.

Nid yw baich ysmygu wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, gyda chyfraddau ac effeithiau ar iechyd yn sylweddol uwch mewn cymunedau mwy difreintiedig. Er bod llawer o gynnydd wedi bod, mae lleihau anghydraddoldebau a chefnogi ysmygwyr mewn grwpiau difreintiedig, yn ogystal â mentrau i atal dechrau ysmygu, yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau gostyngiadau pellach mewn niwed.



# Cyfeiriadau

Cymerodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y set sleidiau hon gyfeiriadau o'r canlynol:


Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

https://icc.gig.cymru/gwybodaeth-erthygl/gweithio-clwstwr-tystiolaeth/

https://rhwydwaithiechydcyhoeddus.cymru/mae-dros-10-y-cant-o-farwolaethau-yng-nghymru-oherwydd-smygu/

ASH (Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd)

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/drugusealcoholandsmoking/bulletins/deprivationandtheimpactonsmokingprevalenceenglandandwales/2017to2021